EIRLYS

Peter Wynn Thomas





*"Yr wyf am fyw"*

YR wyf am fyw, a byw i Ti,
O! Dduw, a roist y reddf i mi;
O! gwared fi rhag codi llef
Am farw, fel y caffwyf nef.

'R wy'n gweld y drwg heb ei gasáu,
'R wy'n gweld y da heb ei fawrhau,
'R wy'n gaethwas i ddifater oes,
A gwan yn ŵyneb ofer foes.

'R wy'n aml yn fodlon am a ddaw,
A chrwydro'n ŵyrgam yma a thraw;
Parod i dderbyn ŵyneb dyn,
A ffoi o ŵydd y gwir ei hun.

Os drwy'r ystorm y daw im hedd,
Os dan y groes y caf dy wedd,
O! erlid f'enaid, nos a dydd,
Yn unig cadw, Iôr, fy ffydd.

Yr wyf am fyw, cans byw wyt Ti;
Dy fynwes yw fy nghartref i:
Dragwyddol Dad, atolwg, clyw
Fy ngweddi fyth—yr wyf am fyw.

DYFNALLT.